



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Hybu Cig Cymru

Penodi Aelodau

Dyddiad cau: 11 Ionawr 2017

Hybu Cig Cymru

Cynnwys

Tudalen

Gwneud Cais

3

Atodiad A : Rôl Aelod

5

Atodiad B : Rôl a chyfrifoldebau Hybu Cig Cymru

8

Atodiad C: Y broses ddethol

10

Hybu Cig Cymru

Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb mewn penodi Cyfarwyddwr anweithredol i Hybu Cig Cymru. Bydd aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am helpu'r pwyllgor gweithredol i ddatblygu'r cyfeiriad strategol ar gyfer HCC drwy ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Busnes. Mae'r Atodiadau yn cynnwys manylion rôl Aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Hybu Cig Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-fb43b803260e/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen i chi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif cofrestredig.

Byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais yn syth ar ôl i chi gofrestru. I wneud cais bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Mater i chi yw penderfynu sut rydych yn dewis cyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyd-fynd â phob un o'r meini prawf a pha rai sy'n disgrifio eich rôl wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir i ba faen prawf penodol y mae tystiolaeth benodol yn berthnasol. Mae darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf yn arfer cyffredin.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Efallai y caiff eich cais ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Gwnewch yn siŵr bod eich CV yn cynnwys manylion cryno am eich swydd bresennol neu'ch swydd ddiweddaraf a'r dyddiadau y buoch yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol blaenorol neu bresennol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar gyfer pobl anabl. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person yn anabl os oes ganddo/ganddi nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu/gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. O dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad bydd person anabl yn cael ei ddewis am gyfweliad os yw'n bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd.

Amserlen ddangosol

Dyddiad cau:	11 Ionawr 2017
Rhestr fer wedi'i chwblhau:	23 Ionawr 2017

Hybu Cig Cymru

Cynnal cyfweiliadau: 02 Mawrth 2017

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Cyfarfodydd y Bwrdd (a gynhelir yn Aberystwyth fel arfer) ynghyd â chyfarfodydd â'r diwydiant, sesiynau briffio, digwyddiadau a sioeau (ledled Cymru, y DU ac, o bosibl, yn fyd-eang).

Cydnabyddiaeth: **£300 y dydd** am yr amser a dreulir yn cyflawni'r rôl, yn ogystal â threuliau teithio rhesymol.

Ymrwymiad Amser: Hyd at 12 diwrnod y flwyddyn

Cysylltiadau:

Am ragor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol
Ffôn: 029 2082 5454
E-bost: sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk

Am ragor o wybodaeth am rôl Hybu Cig Cymru a rôl Aelod o'r Bwrdd cysylltwch â Gareth Wilson:

Ffôn: 0300 025 3366
E-bost: Gareth.wilson@wales.gsi.gov.uk

Os bydd angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru drwy ffonio 029 2082 5454 neu drwy anfon neges e-bost i SharedServiceHelpdesk@wales.gsi.gov.uk

Am ragor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.gov.wales/publicappointments

Penodi Cyfarwyddwr anweithredol i Hybu Cig Cymru

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Y Cadeirydd sy'n bennaf cyfrifol am arwain y Bwrdd o Gyfarwyddwyr anweithredol i sicrhau effeithiolrwydd Hybu Cig Cymru tra bod cyfrifoldeb gweithredol am weithredu HCC yn nwylo'r Prif Swyddog Gweithredol.

Cyfrifoldebau allweddol y Bwrdd fydd:

- Helpu i gyflawni'r argymhellion allweddol o'r adolygiad annibynnol o Hybu Cig Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016;
- Helpu i gyflawni Dyfodol y Diwydiant: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru
- Mynd i Is-bwyllgorau'r Bwrdd fel y bo'n briodol;
- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol HCC a Chynllun Busnes HCC drwy'r Bwrdd;
- Sicrhau bod systemau ar waith i fonitro effeithiolrwydd HCC a bod aelodau'r Bwrdd yn cael gwybodaeth gywir, amserol a chlr am berfformiad y cwmni;
- Cynnal prosesau llywodraethu corfforaethol a sicrhau y cynhelir pob gweithgaredd â chywirdeb a phriodoldeb fel sy'n ofynnol gan sefydliad sy'n gwario arian cyhoeddus;
- Cyfathrebu a mynychu cyfarfodydd, lle y bo'n briodol, â rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru
- Chwarae rôl allweddol wrth hyrwyddo safbwyntiau HCC i'r cyhoedd;

Manyleb y Person

Caiff pob cais ei asesu yn erbyn y meini prawf a nodir isod.

Profiad a Gwybodaeth: Meini Prawf Hanfodol

Disgwyllir i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos profiad a gwybodaeth am y canlynol:

Dealltwriaeth o anghenion y diwydiant amaeth a'r diwydiant bwyd ehangach

- Yn gallu dangos dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu'r diwydiant a thalwyr ardollau cig coch yng Nghymru.

Profiad o Ddatblygu Strategol

- Meddwl creadigol a datblygu strategaethau;
- Y gallu i ddadansoddi a gwneud penderfyniadau effeithiol.

Profiad o Lywodraethu Corfforaethol

- Monitro effeithiolrwydd gweithgareddau a sicrhau y caiff gwybodaeth gywir, amserol a chlr am berfformiad ei choladu;
- Cyflawni gweithgareddau yn onest ac yn briodol.

Sgiliau Cyfathrebu

- Sgiliau cyfathrebu effeithiol ynghyd â'r gallu i hyrwyddo safbwyntiau'r diwydiant a'r sector i'r cyfryngau, y Llywodraeth a rhanddeiliaid;
- Sgiliau rhyngpersonol da, yn gallu meithrin cydberthnasau cadarn â rhanddeiliaid ac eraill.

Hybu Cig Cymru

Profiad a Gwybodaeth: Meini Prawf Arbenigol

Er mwyn sicrhau bod gan aelodau'r Bwrdd groestoriad o sgiliau, bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r penodiadau ar draws y meysydd penodol canlynol gan sicrhau na chaiff mwy na dau gynrychiolydd o bob un o'r set sgiliau eu penodi:

- Cynhyrchu Cynradd
- Prosesu Cig Coch
- Gweithgynhyrchu bwyd a diod
- Allforio, gwerthu a marchnata
- Cyllid ac archwilio
- Cyfreithiol a llywodraethu
- Y Byd Academaidd

Yn ogystal â'r sgiliau arbenigol hyn, mae'n ddymunol y byddai gan yr Aelodau y sgiliau canlynol:

- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- Profiad o roi anerchiadau a chael eu cyfweld gan y cyfryngau;
- Profiad blaenorol o fod ar Fwrdd naill ai fel aelod gweithredol neu anweithredol.

Yr Iaith Gymraeg

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer rôl Cadeirydd Hybu Cig Cymru.

Cydnabyddiaeth

Telir £300 y dydd i Gyfarwyddwr anweithredol.

Gellir hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill yr eir iddynt o bosibl wrth gyflawni gwaith ar ran HCC yn ôl gan HCC o fewn y terfynau cydnabyddedig. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i adennill costau mewn perthynas â gofal plant/gofal i'r henoed/gofalwr cynorthwyol, tra'n cyflawni gwaith ar ran HCC.

Ymrwymiad Amser

Rhagwelir y bydd y rôl yn gofyn am ymrwymiad o hyd at **12 diwrnod y flwyddyn** er mwyn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd (a gynhelir yn Aberystwyth fel arfer) a chyfarfodydd â'r diwydiant, sesiynau briffio, digwyddiadau a sioeau (ledled Cymru a'r DU ac yn fyd-eang).

Daliadaeth y swydd

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n pennu hyd y penodiad, a fydd yn para am hyd at dair blynedd.

Atebolrwydd

Penodir y Cadeirydd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ac mae'n atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, drwy'r Is-adran Amaeth - Cynaliadwyedd a Datblygu am gyflawni ei ddyletswyddau ac am ei berfformiad.

Cymhwysedd

Dylai ymgeiswyr fod yn unigolion sydd bob amser yn ymddwyn mewn ffordd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Hybu Cig Cymru

Ni dderbynnir ceisiadau gan gyfarwyddwyr wedi'u hanghymwyo fel y'u diffinnir gan Ddeddf Anghymwyo Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod aelodaeth o Hybu Cig Cymru yn swydd sy'n eich anghymwyo rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymwyo) 2015.
<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro Buddiannau

Dylech nodi'n arbennig bod gofyn i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'r rôl a'r cyfrifoldebau fel Cadeirydd Hybu Cig Cymru, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl o fewn Hybu Cig Cymru.

Os cewch eich penodi, bydd hefyd angen i chi ddatgan y buddiannau hyn adeg eich penodi a chânt eu cofnodi mewn cofrestr a fydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld.

Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

Disgwylir i chi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw at God Ymarfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. I weld y ddogfen honno, ewch i:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/BoardCodeofPractice2011.pdf>

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai fod gan gyrff cyhoeddus aelodau ar eu bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am gael eu penodi i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu yn arbennig felly geisiadau gan bob grŵp nad yw wedi'i gynrychioli'n ddigonol gan gynnwys menywod, pobl o dan 30 oed, pobl dduon ac Asiaidd ac aelodau o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarantu Cyfweiliad – Cadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn gwarantu cyfweiliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion hanfodol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweiliad.



INVESTORS
IN PEOPLE | Silver



Rôl a chyfrifoldebau Hybu Cig Cymru

Cefndir

Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r corff strategol sy'n gyfrifol am ddatblygu, marchnata a hyrwyddo diwydiant cig coch Cymru. Ei genhadaeth yw datblygu marchnadoedd proffidiol a chynaliadwy ar gyfer cig oen, cig eidion a phorc o Gymru. Mae'r sefydliad yn gwmni cyfyngedig drwy warant heb unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Mae'r Bwrdd yn cynnwys 12 cyfarwyddwr anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd.

Lansiwyd Dyfodol y Diwydiant - Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru, a ddatblygwyd gan HCC mewn ymgynghoriad agos â diwydiant cig coch Cymru a Llywodraeth Cymru, ym mis Gorffennaf 2015, a'i weledigaeth yw sicrhau diwydiant cig coch i Gymru sy'n broffidiol, yn effeithlon, yn gynaliadwy ac yn arloesol, ac sy'n gallu gwrthsefyll newidiadau gwleidyddol ac amgylcheddol ac ymateb yn gystadleuol i dueddiadau mewn marchnad sy'n newid yn barhaus.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon mae dwy flaenoriaeth strategol allweddol, sef: Cynyddu'r galw am gynhyrchion cig coch o Gymru (gan gynyddu gwerthiannau ac elw)

Gwella effeithlonrwydd prosesau cynhyrchu (gan gynyddu'r cyflenwad o gynnyrch o ansawdd) tra'n cynnal amgylchedd a thirwedd Cymru.

Caiff ffocws darparu HCC ei gyflawni drwy dair adran:

- **Datblygu Marchnadoedd** - mae HCC yn weithgar mewn sawl marchnad bwysig ledled y byd gan ddatblygu a chryfhau cyfleoedd busnes ar gyfer allforwyr cig coch Cymru. Gartref mae HCC yn gweithio gyda manwerthwyr, marchnadoedd ffermwyr a gweithredwyr gwasanaethau bwyd sy'n cynnal rhaglenni hyrwyddo rheolaidd ar gyfer Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru sydd â Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig.
- **Datblygu'r Diwydiant** - mae HCC yn gwneud gwaith ymchwil a datblygu, yn lledaenu gwybodaeth a hyfforddiant sy'n berthnasol i bob rhan o'r gadwyn gyflenwi, er mwyn sicrhau bod diwydiant cig coch Cymru mewn sefyllfa i wella ansawdd, cynyddu costeffeithiolrwydd, gwella iechyd anifeiliaid, diogelu'r amgylchedd ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion cig coch ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi.
- **Cyfathrebu** - mae HCC yn sicrhau y caiff rhanddeiliaid a defnyddwyr wybodaeth am ddatblygiadau mewn perthynas â chig coch Cymru. Cynhelir cydberthnasau â'r Llywodraeth, byrddau ardollau a rhanddeiliaid allweddol eraill hefyd.

Daw prif ffynhonnell incwm HCC o Ardreth Cig Coch Cymru a gesglir mewn perthynas â gwartheg, defaid a moch a leddir yng Nghymru. Mae'r ardreth statudol wedi bodoli yn y sector cig coch am nifer o flynyddoedd er mwyn ariannu gweithgareddau i helpu i ddatblygu'r sector hwn, ac yn benodol gwaith na fyddai fel arall yn cael ei wneud o dan amodau arferol y farchnad.

Hybu Cig Cymru

Ar 01 Ebrill 2007, sefydlwyd HCC yn gorff o dan berchenogaeth Iwyr Gweinidogion Cymru.

Hybu Cig Cymru

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CVs a datganiadau personol ymgeiswyr er mwyn nodi pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, yn ei farn ef, a phwy a gaiff wahoddiad i gael cyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu'n llwyr ar y wybodaeth a ddarparwch yn eich CV a'ch datganiad i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. Gofalwch felly eich bod yn darparu'r dystiolaeth sy'n dangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Gary Haggaty, Pennaeth yr Is-adran Amaeth, Cynaliadwyedd a Datblygu a bydd hefyd yn cynnwys yr Athro Christianne Glossop, y Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru, Keith Smyton, Pennaeth yr Is-adran Fwyd, Cadeirydd newydd HCC a Kevin Roberts, Cadeirydd Annibynnol Amaeth Cymru fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Mae'n bosibl y caiff eich cais ei roi ar "restr hir", gan ddibynnu faint o geisiadau fydd wedi dod i law, cyn iddo gael ei drosglwyddo i'r panel sy'n llunio'r rhestr fer er mwyn iddo ei ystyried. Dylech fod yn ymwybodol, yn y sefyllfa hon, ei bod yn bosibl na chaiff eich cais ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel.

Rydym yn rhagweld, yn ystod mis Ionawr 2017, y bydd y panel wedi penderfynu pwy a gaiff ei wahodd i gyfweliad ym mis Chwefror 2017.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a gaiff eu gwahodd i gyfweliad, sef y rheini sydd ym marn y panel wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb y person orau. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad ydym wedi nodi dyddiad y cyfweliad yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd ag y gallwn o ddyddiad y cyfweliad i chi. Os na allwch ddod i'r cyfweliad ar y diwrnod hwnnw, gwnawn ein gorau glas i'w aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau'r amserlen benodi neu am na fydd y panel dethol ar gael.

Bydd y system Appoint yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi p'un a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweliad neu beidio. Ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau yng Nghaerdydd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a nodwyd ar gyfer y swydd.

Caiff ymgeiswyr sy'n 'benodadwy', ym marn y panel, eu hargymell i'r Gweinidogion a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Efallai y bydd y Gweinidog yn dewis cyfarfod ag ymgeiswyr penodadwy cyn gwneud penderfyniad. Os bydd yn gwneud hynny, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr, gyda chadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig yn bresennol. Bydd bwch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad

Hybu Cig Cymru

penodi terfynol. Bydd ymgeiswyr sydd wedi cael eu cyfweld yn cael gwybod am hynt y broses.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Hybu Cig Cymru, a fydd yn cadarnhau o dan ba delerau y cynigir y penodiad i chi.

Os na fuoch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn sylweddoli ei bod yn cymryd cryn ymdrech ac amser i ymgeisio am swyddi a bod cael adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn rhoi manylion y sawl y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch.

Ymholiadau

Os bydd gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol drwy ffonio 029 2082 5454 neu drwy anfon neges e-bost i sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk.

Rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Mae'r Comisiynydd yn rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrrff cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau yn deg, yn agored ac yn dryloyw ac yn seiliedig ar deilyngdod. Am ragor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'i God Ymarfer, ewch i <http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk>

Os nad ydych yn hollol fodlon

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu pob cais mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd â chwarteisi. Os bydd gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol drwy ffonio 029 2082 5454 neu drwy anfon neges e-bost i sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk

Os byddwch yn dal yn anfodlon ar ôl cael ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Cysylltwch â:

The Commissioner for Public Appointments
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 0849
E-bost: publicappointments@csc.gsi.gov.uk